# Premiwm Treth Cyngor

## Beth yw premiwm Treth Cyngor

Ers 1 Ebrill 2017, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gallu codi premiwm o hyd at 100% ychwanegol ar ben cyfradd safonol y dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn eu hardaloedd ac o 1 Ebrill 2023, cynyddodd yr uchafswm y lefel i 300%.

Bwriedir i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol godi premiwm fod yn adnodd i helpu i wneud y canlynol:

- sicrhau bod eiddo gwag hirdymor yn dod yn ôl i ddefnydd er mwyn darparu cartrefi diogel a fforddiadwy.
- helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy.

## Cyfradd mae Cyngor Gwynedd yn ei godi ar hyn o bryd

| Premiwm | % ar ben cyfradd safonol llawn | Dyddiad daeth yn effeithiol |
|---|---|---|
| Eiddo sydd wedi bod yn wag a diddodrefn am dros 12 mis | 100 | 1 Ebrill 2021 |
| Ail gartrefi | 150 | 1 Ebrill 2023 |

## Niferoedd eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi

| | Mawrth 2023 | Mawrth 2024 |
|---|---|---|
| Nifer yr eiddo gwag hirdymor | 1,435 | 1,480 |
| Nifer ail gartrefi | 5,218 | 4,990 |
| Nifer yr eiddo oedd yn atebol i dalu premiwm eiddo gwag hirdymor | 1,087 | 1,114 |
| Nifer yr eiddo oedd yn atebol i dalu premiwm eiddo ail gartrefi | 4,199 | 3,960 |

## Incwm a godwyd o eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi

| | **2022/23 £** | **2023/24 £** |
|---|---|---|
| Cyfanswm gwerth biliau treth cyngor ar gyfer premiwm ar eiddo gwag hirdymor * | 1,524,371 | 1,631,891 |
| Cyfanswm gwerth biliau treth cyngor ar gyfer premiwm ar ail gartrefi * | 8,882,561 | 11,735,708 |

* *O gyfanswm gwerth y biliau treth cyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, mae'r Cyngor yn gwneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer; eiddo sy'n trosglwyddo i ardrethi annomestig, incwm premiwm nad yw'n debygol o gael ei dderbyn, costau casglu ar gyfer gweinyddu'r premiwm.*

## Sut mae'r arian a godwyd o'r premiwm yn cael ei wario

Mae'r canllawiau statudol yn nodi "gall awdurdodau ddefnyddio'r refeniw ychwanegol at unrhyw ddiben, ond fe'u hanogir i'w ddefnyddio er mwyn helpu i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau."

Mae'r incwm ychwanegol a godwyd yn cael ei ddyrannu ar gyfer cynlluniau penodol fel y manylir arnynt yn y Cynllun Gweithredu Tai (Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21-2026/27), a diwygiadau perthnasol dilynol a wnaed yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Mehefin 2023 (Rhaglen ar gyfer Y Cabinet ar Dydd Mawrth, 13eg Mehefin, 2023, 1.00 y.h. (llyw.cymru) – eitem 11).

Yn ogystal, pan cynyddodd y premiwm ar ail gartrefi i 150%, dyrannwyd cyllideb flynyddol o £3m i ddigartrefedd, cyfeiriwch at bwynt 3.7 yn adroddiad 'Cyllideb 2023/24' a aeth i gyfarfod llawn y Cyngor ar 2/3/23; Cyllideb 2023-24 (Cyngor) (llyw.cymru).

Yr alwad gyntaf ar unrhyw warged net uwchben dyraniad y gyllideb am y flwyddyn fydd ei ddefnyddio i ariannu unrhyw orwariant yn adrannau'r Cyngor lle fo'r gorwariant yn ganlyniad i gynnydd yn y galw am wasanaeth.